



arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

Llyfr Bach Piws:

Canllaw Mudiad Meithrin ar
faterion elusennol

Mehefin 2020



CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD	3
2. BETH YW ELUSEN?	4
3. Y COMISIWN ELUSENNAU	5
4. SEFYDLU ELUSEN	6-16
5. RECRIWTIO YMDDIRIEDOLWYR	17-19
6. CADW'CH ELUSEN AR Y TRYWYDD IAWN	20-28
7. SUT I NEWID MANYLION EICH ELUSEN NEU SUT I GAU ELUSEN	29-30
8. GWYBODAETH AC ADNODDAU YCHWANEGOL	31





1. CYFLWYNIAD

Y blynyddoedd cyntaf ym mywyd plentyn yw'r rhai mwyaf arwyddocaol o safbwynt ei ddatblygiad. Mae Cylch Meithrin yn cynnig nifer o brofiadau gwerthfawr i bob plentyn bach. Mae datblygiad llwyddiannus y Cylch Meithrin yn dibynnu'n helaeth ar gefnogaeth rhieni/gofalwyr a'r gymuned leol.

Rhieni / gofalwyr / gwirfoddolwyr sy'n gyfrifol am ffurfio Cymdeithas yn y man cychwyn, a'r Gymdeithas honno fydd yn gyfrifol am sefydlu'r Cylch Meithrin.

Cyfrifoldeb y Gymdeithas fydd ethol Pwyllgor Rheoli Gwirfoddol i fod yn gyfrifol am reolaeth a gweithrediad dydd i ddydd y Cylch Meithrin, ac i gyfethol aelodau o'r gymuned leol i gynorthwyo gyda'r gwaith. Y Pwyllgor Rheoli Gwirfoddol fydd yn gyfrifol am weithredu'n gyflogwr gan gynnwys penodi, cyflogi, cefnogi a rheoli staff, gan dynnu ar gyngor ac arbenigedd Mudiad Meithrin ac eraill.

Bydd y canllaw hwn yn eich tywys drwy'r elfennau sylfaenol o sefydlu a rhedeg elusen. Canllaw cryno ydyw; nid yw'n cynnwys holl ganllawiau cyfreithiol ar gyfer elusennau, felly dylid cyfeirio at wefan y Comisiwn Elusennau ar gyfer y canllawiau cyfreithiol cyflawn. Gallwch hefyd dderbyn arweiniad gan eich Swyddog Cefnogi, a mwy o wybodaeth drwy'r fewnwyd a'r Llyfr Mawr Piws.



2. BETH YW ELUSEN?

Sefydliad sydd â 'dibenion elusennol' sy'n helpu'r cyhoedd yw elusen (mewn geiriau eraill, mae 'er budd y cyhoedd')

Mae dibenion elusennol yn cynnwys pethau sy'n cyfrannu at leddfu tlodi, iechyd, yr amgylchedd ac addysg.

Pwrpas elusennol Cylch Meithrin yw 'addysg' a'r budd yw i blant ifanc mewn cymunedau lleol.



3. Y COMISIWN ELUSENNAU

Y Comisiwn Elusennau yw'r corff swyddogol sy'n cofrestru ac yn rheoleiddio elusennau yng Nghymru a Lloegr er mwyn sicrhau y gall y cyhoedd fod â ffydd a hyder wrth gefnogi elusennau.

Rhaid i bob elusen sydd ag incwm blynyddol o £5,000 neu fwy gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau.



4. SEFYDLU ELUSEN

Dyma ychydig o bethau y dylech ystyried cyn i chi ddechrau sefydlu fel elusen newydd:

- A oes elusen (Cylch) arall yn weithredol yn yr ardal ac eisoes yn gwneud yr hyn rydych chi'n bwriadu ei wneud?
- Rhaid bod gennych bwrpas clir i sefydlu elusen - *pwrpas elusennol Cylch Meithrin yw 'addysg'*.
- Mae yna gyfreithiau a rheolau penodol y bydd yn rhaid i chi eu dilyn pan fyddwch chi'n cofrestru fel elusen.
- Ni allwch dderbyn unrhyw fudd personol o fod yn ymddiriedolwr.
- Ni allwch wneud unrhyw beth sy'n anghyfreithlon (sy'n wir heb ddweud!)

Sefydlu elusen - cam wrth gam:

Dyma rai canllawiau ar sut i sefydlu elusen. Nid ydym wedi rhestru pethau mewn unrhyw drefn benodol, ond mae angen gwneud popeth. Efallai y bydd yn edrych yn frawychus i gychwyn, ond peidiwch â digalonni! Trwy ddilyn y camau a restrir a gyda chefnogaeth Mudiad Meithrin byddwch yn cofrestru'ch elusen mewn dim o dro!

Mae Mudiad Meithrin yn argymhell y Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO) fel y strwythur elusennol 'ffit orau' ar gyfer anghenion y mwyafrif o Gylchoedd Meithrin. Mae gennym becyn cofrestru a thîm o arbenigwyr a all eich tywys drwy'r broses gofrestru.



CAM 1. Ysgrifennwch eich dibenion Elusennol

Mae'r 'pwrpas' yn ddatganiad o'r hyn y mae eich elusen wedi'i sefydlu i'w gyflawni (a elwir weithiau'n 'amcanion'). Rhaid i hwn esbonio:

- **BETH** mae'ch elusen (Cylch) am wneud
- **LLE** y byddwch chi'n ei wneud
- **PWY** fydd yn elwa
- **A SUT**

Mae Mudiad Meithrin wedi paratoi 'pwrpas' diffiniedig y gall ein haelodau ei ddefnyddio, sydd wedi'i gydnabod a'i gymeradwyo gan y Comisiwn Elusennau.

Hyrwyddo addysg gyfrwng Cymraeg i blant oed cyn ysgol yn (nodwch dre neu ardal benodol).

CAM 2. Enwch eich elusen (Cylch)

Rhaid i enw'r elusen beidio â:

- defnyddio geiriau nad oes gennych ganiatâd i'w defnyddio, er enghraifft nod masnach. *Rhaid i chi fod yn aelod cyfredol o Mudiad Meithrin i ddefnyddio'r enw 'Cylch Meithrin';*
- defnyddio geiriau neu acronymau tramgwyddus;
- bod yn gamarweiniol, er enghraifft awgrymu bod eich elusen yn gwneud rhywbeth nad yw'n ei gwneud;
- bod yn debyg i enw elusen sy'n bodoli eisoes.

Er mwyn osgoi dyblygu gallwch chwilio'r gofrestr elusennau i wirio enwau elusennau sydd wedi'u cofrestru ar hyn o bryd: <https://www.gov.uk/find-charity-information> Nid yw elusennau sydd heb gofrestru yn ymddangos ar y gofrestr. Cysylltwch â'ch Swyddog Cefnogi os oes angen tynnu hen Gylch nad yw bellach yn weithredol oddi ar gofrestr y Comisiwn Elusennau.



CAM 3. Penderfynwch strwythur eich elusen

Bydd cytuno ar strwythur eich elusen ar ddechrau'r broses yn helpu unwaith y bydd eich elusen (Cylch) yn dechrau tyfu.

Wrth benderfynu ar strwythur elusennol mae dau benderfyniad allweddol i'w gwneud:

- a. A ddylai'r elusen gael ei rhedeg gan ymddiriedolwyr yn unig, neu a ddylai gael aelodaeth ehangach?**
- b. P'un ai i gael strwythur corfforedig neu i ddewis fod yn anghorfforedig – opsiwn symlach ond un sydd â lefel uwch o risg.**



a. Ymddiriedolwyr yn unig neu aelodaeth ehangach?

- Mewn elusen sy'n cael ei rheoli'n gyfan gwbl gan ei hymddiriedolwyr, yr ymddiriedolwyr hynny yw unig aelodau'r elusen. Gallant wneud penderfyniadau hanfodol (megis pwy i'w penodi'n ymddiriedolwr; a ddylid gwneud newidiadau i'r cyfansoddiad) heb gyfeirio at unrhyw grŵp ehangach.

Gelwir y math hwn o elusen yn 'Sylfaen'.

- Gall elusen ag aelodaeth ehangach fod yn fwy democrataidd oherwydd bydd yr ymddiriedolwyr yn atebol i'r aelodau hynny. Mae yna rai penderfyniadau y gellir eu gwneud gan yr aelodaeth ehangach YN UNIG, fel ethol ymddiriedolwyr, cymeradwyo'r cyfrifon blynyddol, a chymeradwyo unrhyw newidiadau i'r cyfansoddiad. Bydd angen i chi feddwl yn ofalus pa mor fawr ddylai'r aelodaeth honno fod (er enghraifft a fydd yn cynnwys yr holl rieni / gofalwyr cyfredol? Teuluoedd? Cyn-rieni / gofalwyr?) Bydd dyletswydd ar yr elusen i gadw cofnodion o'r holl aelodau a'u gwahodd i Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, lle byddant yn ethol ymddiriedolwyr, yn cymeradwyo'r cyfrifon ac yn gofyn cwestiynau ynghylch sut mae'r ymddiriedolwyr wedi bod yn rheoli'r elusen.



b. Anghorfforedig neu Gorfforedig?

- Anghorfforedig

Nid oes gan elusen anghorfforedig ei phersonoliaeth gyfreithiol ei hun, felly ni all llofnodi unrhyw gytundebau yn enw'r elusen. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i gytundebau gael eu llofnodi gan un o'r ymddiriedolwyr y gellir wedyn eu dal yn bersonol atebol am unrhyw ddyledion.

Y strwythur anghorfforedig yw'r dewis gorau ar gyfer Cylch Meithrin nad yw'n disgwyl rhentu adeilad, bod yn berchen ar eiddo, cyflogi staff, ac ati.

- Corfforedig

Mae elusen gorfforedig yn ffurf gyfreithiol (fel cwmni) sy'n rhoi ei hunaniaeth gyfreithiol ei hun i'r elusen. Mae hyn yn golygu y gall fod yn berchen ar eiddo a llofnodi cytundebau yn enw'r elusen. Mae corffori yn rhoi mwy o ddiogelwch i ymddiriedolwyr rhag bod yn atebol yn bersonol.

Dylai elusen sy'n cyflogi pobl neu'n darparu gwasanaethau (h.y. y mwyafrif o Gylchoedd Meithrin) ddewis cael ei hymgorffori. Daw'r diogelwch ychwanegol gyda rheoliadau a rheolaeth gyfreithiol dynnach, gan gynnwys:

- Yr angen i drefnu archwiliad annibynnol blynyddol o gyfrifon eich elusen (os yw'r incwm blynyddol dros £ 25,000) ac,
- Yr angen i gyflwyno adroddiad a chyfrifon blynyddol eich elusen i'r Comisiwn Elusennau, a chânt eu cyhoeddi ar-lein.

Gelwir y strwythur corfforedig symlaf, a ddefnyddir mwyaf aml, yn Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO). Mae Mudiad Meithrin yn argymhell yn gryf y dylai Cylchoedd Meithrin ddewis strwythur CIO ar gyfer eu helusen.



Bydd y dewisiadau a wnewch ar hyn o bryd yn effeithio ar y math o gyfansoddiad, neu'r ddogfen lywodraethol, y bydd eich elusen yn ei mabwysiadu.

Gofynnwch i'ch Swyddog Cefnogi am arweiniad pellach.

CAM 4. Dewis y ddogfen lywodraethol

Beth yw dogfen lywodraethol?

Pan fyddwch chi'n cychwyn elusen fach, bydd angen set o reolau arnoch chi sy'n egluro beth mae'r elusen yn ei wneud a sut i'w rhedeg. Mae'r rheolau yn cynnwys dibenion a phwerau eich elusen, a threfniadau eraill fel faint o ymddiriedolwyr fydd gennych chi, sut maen nhw'n cael eu penodi neu eu hethol, sut i roi rhybudd o gyfarfodydd, sut i alw cyfarfod cyffredinol (fel y CCB), a sut i ddirwyn yr elusen i ben (cau'r elusen).

Gall Cylchoedd Meithrin sy'n cofrestru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO) ddefnyddio cyfansoddiad model Mudiad Meithrin sydd wedi'i gymeradwyo gan y Comisiwn Elusennau. Fel sefydliad ymbarél mae Mudiad Meithrin yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Elusennau ac felly mae defnyddio'r cyfansoddiad hwn yn debygol o wneud cofrestru'n gyflymach ac yn haws.

Enw arall ar 'ddogfen lywodraethol' yw 'cyfansoddiad'.



Pa ddogfen lywodraethol?	
<i>Os ydych chi'n:</i>	<i>Rydym yn argymhell:</i>
Elusen fach sydd ag incwm blynyddol o dan £ 5,000 nad yw'n berchen ar adeilad neu'n cyflogi staff ac nad yw'n bwriadu cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau	Cyfansoddiad Elusen Fach Noder: ni allwch ddefnyddio'r un hon i gofrestru fel elusen
Os ydych chi am sefydlu elusen a all gyflogi staff, llofnodi contractau, rhentu neu fod yn berchen ar ei safle ei hun AC os ydych chi am i'r elusen gael ei rhedeg yn gyfan gwbl gan ymddiriedolwyr NEU os ydych chi am gael aelodaeth ehangach i ddwyn yr ymddiriedolwyr i gyfrif (ond cofiwch y bydd dyletswydd ar yr elusen i gadw cofnodion cyfoes o'r holl aelodau fel y gallant eu gwahodd i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol a sicrhau bod pob aelod yn cael cyfle i bleidleisio ar faterion allweddol)	Un o Gyfansoddiadau CIO Model Mudiad Meithrin (y ddau ar gyfer strwythurau Corfforedig). Cyfansoddiad Sylfaen. Templed MM Cyfansoddiad Cyswllt. Templed MM



<p>Os ydych chi am sefydlu elusen ar gyfer Cylch Meithrin nad yw'n disgwyl rhentu adeilad, bod yn berchen ar eiddo, cyflogi staff, ac ati.</p>	<p>Cyfansoddiad enghreifftiol ar gyfer cymdeithasu anghorfforedig</p>
--	---

CAM 5. Gwneud cais i gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau

Dyma restr wirio gyflym o'r wybodaeth y bydd angen i chi cofrestru yn elusen anghorfforedig neu CIO (Sefydliad Corfforedig Elusennol):

- Enw'ch elusen
- Manylion yr ymddiriedolwyr - enwau cyfredol a blaenorol, dyddiadau geni a manylion cyswllt
- Ffurflen Datganiad Cymhwysedd a Chyfrifoldeb Ymddiriedolwyr (i'w llofnodi gan bob ymddiriedolwr)
- Eich dogfen lywodraethol (cyfansoddiad)

Yn ogystal, efallai y bydd angen:

- Manylion eich banc neu gymdeithas adeiladu
- Eich cyfrifon ariannol mwyaf diweddar
- Tystiolaeth o incwm (e.e. datganiad banc diweddar fel delwedd wedi'i sganio)



Sut i gofrestru Elusen anghorfforedig:

Defnyddiwch wasanaeth ar-lein y Comisiwn Elusennau 'Gwneud cais i gofrestru elusen'. Gellir dod o hyd i wybodaeth fanwl am gofrestru ar wefan y Comisiwn yn <https://www.gov.uk/setting-up-charity/register-your-charity?step-by-step-nav=3dd66b86-ce29-4f31-bfa2-a5a18b877f11>

Rhaid sefydlu'r elusen anghorfforedig yn gyntaf cyn y gallwch wneud cais i gofrestru.

Mae hyn yn golygu eich bod wedi:

- ⇒ penderfynu beth yw pwrpas eich elusen
- ⇒ penderfynu pa fath o strwythur elusennol fydd ganddo
- ⇒ paratoi dogfen lywodraethol (gan ddefnyddio cyfansoddiad Model y Comisiwn Elusennau ar gyfer elusen anghorfforedig)
- ⇒ dewis enw
- ⇒ recriwtio ymddiriedolwyr
- ⇒ penderfynu sut y bydd eich elusen yn cael ei hariannu

Cysylltwch â'ch Swyddog Cefnogi lleol am arweiniad a chefnogaeth.

Sut i gofrestru SCE (Sefydliad Corfforedig Elusennol):

Mae gan Mudiad Meithrin dîm o arbenigwyr a all eich helpu i baratoi'r cais SCE. Bydd angen i chi ddarparu rhywfaint o wybodaeth allweddol i ni, fel manylion ymddiriedolwyr, a byddwn yn gwneud cais i gofrestru'r SCE ar ran y Cylch (ar gael gyda lefel aelodaeth Yr Wyddfa).



N.B. Bydd gan y SCE sydd newydd endid cyfreithiol ei hun ar wahân i'r sefydliad anghorfforedig ac felly bydd angen cais newydd i gofrestru'r gwasanaeth gyda AGC (Arolygiaeth Gofal Cymru). Rhaid cyflwyno'r cais hwn o fewn 28 diwrnod o gofrestrriad y SCE gyda'r Comisiwn Elusennau (ar gyfer Cylchoedd sydd ar hyn o bryd ag ymddiriedolwr unigol neu Bwyllgor anghorfforedig yn berson cofrestredig).

Pa mor hir fydd y cais yn ei gymryd?

Gall cymryd peth amser i'r Comisiwn Elusennau brosesu ac adolygu'r cais ond dylech dderbyn ymateb o fewn 45 diwrnod (mae ceisiadau a wneir gan Mudiad Meithrin fel arfer yn gyflymach, os yw popeth yn iawn). Bydd hyn yn cadarnhau'r rhif elusen newydd a'r camau nesaf y mae'n rhaid i chi eu cymryd.

Beth sy'n digwydd nesaf?

- Bydd manylion yr elusen ar gael i'r cyhoedd ar y Gofrestr Elusennau(ar wefan y Comisiwn Elusennau) o fewn 48 awr o dderbyn rhif yr elusen.
- Rhaid i chi wirio bod manylion eich elusen yn gywir a sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf gan y Comisiwn.
- Bydd angen i'r ymddiriedolwyr ofyn am gyfrinair i gael mynediad at y gwasanaeth ar-lein.
- Gyda chyfrinair gallwch hefyd gael Tystysgrif Cofrestru elusennol (y mae cyllidwyr grant yn gofyn amdani weithiau neu wrth dendro am gytundebau).

Dywedwch wrth bawb fod gan eich Cylch Meithrin statws elusennol!

Yn ôl y gyfraith mae angen i chi sicrhau bod unrhyw un sy'n cefnogi'r Cylch yn gwybod ei fod yn cael ei reoleiddio'n iawn ac y bydd unrhyw arian a roddir yn cael ei ddefnyddio'n gywir.

Elusen Cofrestredig - gydag incwm dros £10,000 rhaid i chi ddatgan eich bod yn 'elusen gofrestredig' fel a ganlyn:

Sefydliad Corfforedig Elusennol - (hyd yn oed os oes incwm o £0) rhaid i chi ddatgan eich bod yn 'SCE' ac enw'r SCE (Cylch) fel a ganlyn:

- ◆ hysbysebion neu ddogfennau codi arian sy'n gofyn am arian (neu unrhyw gasgliadau eraill i godi arian fel dillad ail law neu ffonau symudol)
- ◆ Biliau, anfonebau, derbynebau a llythyrau credyd
- ◆ Gwiriadau ac archebion am nwyddau i'r elusen
- ◆ Ceisiadau am drwyddedau i gynnal gweithgaredd megis trwydded codi arian, trwydded gerddoriaeth neu drwydded alcohol
- ◆ Ffurflenni AGC (Arolygiaeth Gofal Cymru). Mae hefyd yn syniad da (er nad yw'n ofyniad cyfreithiol) i nodi eich rhif elusen cofrestredig. Bydd yn gymorth i bobl i ddod o hyd i'ch manylion yn haws ar y gofrestr Elusennau.

Byddwch yn falch - rhowch gyhoeddusrwydd i'ch statws a'ch rhif elusennol yn eich cylchlythyrau, e-byst, penawdau llythyrau, cyfryngau cymdeithasol mae'r cyfleoedd yn ddiddiwedd!



5. RECRIWTIO YMDDIRIEDOLWYR

(Mae mwy o arweiniad hefyd ar gael yn y Llyfr Bach Piws ar gyfer Pwyllgorau Rheoli).

Mae ymddiriedolwyr yn wirfoddolwyr sy'n gyfreithiol gyfrifol am yr elusen ac sy'n sicrhau bod y Cylch yn gwneud yr hyn y cafodd ei sefydlu i'w wneud, yn unol â'u ddibenion elusennol a'i gyfansoddiad. Rhaid iddynt:

- weithredu er budd gorau'r elusen bob amser
- fod yn gyfrifol wrth reoli adnoddau'r elusen (arian / eiddo / staff)
- sicrhau bod yr elusen yn gweithredu o fewn y gyfraith
- sicrhau bod yr elusen yn cyflawni ei phwrpas

Cynghorion Campus

- ◆ Mae gan y mwyafrif o elusennau rhwng 3 a 12 ymddiriedolwr
- ◆ Weithiau, cyfeirir at grŵp o ymddiriedolwyr fel 'y Bwrdd' neu'r 'Pwyllgor Rheoli'
- ◆ Mae'r ymddiriedolwyr fel arfer yn ddi-dâl (oni bai bod ganddynt ganiatâd arbennig gan y Comisiwn Elusennau)
- ◆ Maent yn cyfarfod yn rheolaidd (rhwng 4 a 12 gwaith y flwyddyn) i ystyried busnes elusennol y Cylch Meithrin
- ◆ Mae yna rai cyfyngiadau ar bwy all fod yn ymddiriedolwr - mae yna oed ieuengaf a rhai ffactorau eraill sy'n gwahardd pobl yn awtomatig rhag bod yn ymddiriedolwyr
- ◆ Dylai pob ymddiriedolwr newydd gwblhau a llofnodi Datganiad Cymhwysedd Ymddiriedolwr a ffurflen Datgan Buddiant

- ◆ Bydd angen gwiriad GDG (Uwch) (*Enhanced DBS check*) ar gyfer holl ymddiriedolwyr Cylch Meithrin gan ei fod yn elusen sy'n darparu 'gweithgareddau rheoledig' i blant. (Dylid adolygu gwiriadau GDG bob 3 blynedd)
- ◆ Rhaid penodi ymddiriedolwyr yn y modd cywir, a dylent wybod am faint mor hir bydd eu penodiad yn para (dylid cofnodi hyn yng nghofnodion y cyfarfod pan gânt eu penodi)
- ◆ Os na chânt eu penodi'n gywir, gall penderfyniadau neu weithredoedd yr ymddiriedolwyr fod yn annilys, gan greu anghydfodau posibl neu roi asedau'r elusen mewn perygl
- ◆ Mae'n arfer da bob ymddiriedolwr dod yn gyfarwydd â'r Cod Llywodraethu Elusennau (nid yw'n ofyniad cyfreithiol, ond mae'n gosod yr egwyddorion a'r arfer a argymelledig ar gyfer llywodraethu da mewn elusennau). Gallwch lawrlwytho cod yn benodol ar gyfer elusennau bach yma:

https://www.charitygovernancecode.org/cy/cod-llywodraethu-i-elusennau?set_language=cy



Bydd angen Cadeirydd, Trysorydd ac Ysgrifennydd arnoch chi.

Dylech ddewis ymddiriedolwyr a all, gyda'i gilydd, ddarparu'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen fwyaf i oruchwylio gwaith y Cylch Meithrin fel elusen. Mae'n debyg y bydd angen arnoch pobl ag arbenigedd mewn pynciau fel Codi Arian, Cyllid, TG, Adnoddau Dynol, Gofal Plant ac Addysg a Marchnata.

Efallai na chewch bopeth yr ydych yn dymuno, ond mae'n beth dda i ystyried eich blaenoriaethau a pha sgiliau y bydd eu hangen fwyaf ar eich Cylch Meithrin.

Cysylltwch â'ch Swyddog Cefnogi Lleol am arweiniad a chymorth.



6. CADW'CH ELUSEN AR Y TRYWYDD IAWN

Cadw cofnodion cyfarfodydd

Dylech gadw cofnod o'r trafodaethau a phenderfyniadau pwysig ym mhob cyfarfod ymddiriedolwyr. Gelwir y rhain yn 'cofnodion'. Mae cofnodion yn dystiolaeth o'r hyn y cytunwyd arno gan yr ymddiriedolwyr yn ystod eu cyfarfodydd.

Dylai'r cofnodion nodi'r wybodaeth ganlynol:

- Dyddiad y cyfarfod
- Pwy oedd yn bresennol
- Pa benderfyniadau a wnaed.

Ymhlith y penderfyniadau mae:

- Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir (neu nodi unrhyw gywiriadau a wnaed)
- Cymeradwyo dogfen neu gyfrifon
- Cytundebau wedi'u gwneud ynglŷn â gwario arian
- Cytundebau ynghylch pwy fydd yn llofnodwyr banc
- Cytundebau ynghylch pwy fydd yn Gadeirydd, Trysorydd, Ysgrifennydd.
- Penodi ymddiriedolwyr / ymddiriedolwyr
- Cytundebau ynghylch cynlluniau a chamau gweithredu yn y dyfodol, pwy sy'n gyfrifol a'r amserlen a gytunwyd



Dylid dosbarthu cofnodion cyfarfod i'r holl ymddiriedolwyr cyn gynted â phosibl ar ôl pob cyfarfod.

Dylid eu llofnodi (yn y cyfarfod dilynol ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan yr ymddiriedolwyr) a'u cadw mewn ffeil.

Cysylltwch â'ch Swyddog Cefnogi lleol am arweiniad a chymorth.

Materion Arian

(Mae mwy o arweiniad hefyd i'w gael yn y Llyfr Bach Piws 'Materion Ariannol').

Agor cyfrif banc elusennol

Un o'r ystyriaethau pwysicaf ar gyfer Cylch Meithrin yw sut i drin ffioedd, rhoddion a chyllid arall yn gyfrifol.

Mae'n debyg y bydd angen i chi sefydlu cyfrif banc cyn gynted â phosibl, ond cyn i chi benderfynu ar y cyfrif cywir, meddyliwch am yr hyn sydd ei angen ar eich Cylch er mwyn cadw trefn ar ei gyllid o ddydd i ddydd, a'r hyn sydd ei angen arno yn y tymor hir i aros yn ariannol hyfyw. A oes angen cyfrif cyfredol arnoch ar gyfer mynediad ar unwaith, neu a oes angen cyfrif cynilo arnoch i sicrhau eich bod yn cael y gyfradd llog orau?

Mae gwahanol fanciau yn cynnig cyfrifon â gwahanol nodweddion, felly mae'n werth edrych o gwmpas i weld pa gyfrifon sy'n iawn ar gyfer anghenion eich Cylch.

Mae yna wahanol fathau o fanc neu gymdeithas adeiladu:

1. Banciau / cymdeithasau adeiladu'r stryd fawr - mae llawer yn cynnig cyfrifon am ddim i elusennau bach
2. Banciau elusennol - cyfrifon cyfredol unigryw ar gyfer y sector elusennol



Banciau / cymdeithasau adeiladu'r stryd fawr

- Mae llawer o fanciau'r stryd fawr yn cynnig cyfrifon am ddim i elusennau bach.
- Mae'r gwasanaethau am ddim yn berthnasol i drafodion bob dydd. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am bethau fel canslo sieciau, gorddrafftiau a gofyn am ddatganiadau ychwanegol.

Banciau elusennol

- Mae dau fanc sy'n darparu cyfrifon cyfredol yn benodol ar gyfer y sector elusennol - Banc CAF a Unity Trust Bank.
- Nid oes ganddynt bresenoldeb gweladwy ar y stryd fawr ond maent yn bodoli'n benodol ar gyfer elusennau (mawr a bach) ac mae eu gwasanaethau'n dilyn gofynion y Comisiwn Elusennau yn agos.
- Darganfyddwch fwy am [CAF Bank](#)
- Darganfyddwch fwy am [Unity Trust Bank](#)

Cynghorion Campus

- ◆ Dylai fod gennych o leiaf ddau lofnodwr digyswllt i'ch cyfrif banc a gofynnwch am awdurdodiad deuol ar-lein neu'r ddau lofnod ar sieciau (neu ddau allan o dri) cyn caniatáu unrhyw wariant.
- ◆ Pan fyddwch chi'n chwilio am y cyfrif banc cywir, gallai fod mor syml â dod o hyd i un gyda'r amseroedd agor cywir a lleoliad cangen sy'n gyfleus i chi.
- ◆ Gwiriwch fod y cyfrif yn diwallu anghenion eich elusen (e.e. dulliau bancio, ffioedd, moeseg).
- ◆ Mae'r rhan fwyaf o fanciau bellach yn cynnig bancio rhyng-
grwyd, fel y gallwch edrych ar ddatganiadau a gwneud taliadau yn hawdd.

- ◆ Dewis llofnodwyr sydd â statws credyd da (bydd y banc yn cynnal gwiriadau credyd)
- ◆ Er tryloywder llwyr, mae'n well os yw enw'r cyfrif banc yn union yr un fath ag enw'r elusen (mae llawer o arianwyr grant yn mynnu hyn).
- ◆ Gall CIO gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau CYN i'r cyfrif banc gael ei sefydlu ond, ar gyfer unrhyw strwythur elusennol arall, mae manylion cyfrif banc yn hanfodol cyn y gallwch gofrestru gyda'r Comisiwn.

Os nad yw'n bosibl cofrestru cyfrif banc yn enw'r elusen, am ba bynnag reswm, gall eich Trysorydd ystyried agor cyfrif personol. Dylai hwn fod yn opsiwn olaf, a mesur dros dro. Dylid cadw'r cyfrif ar wahân i unrhyw gyfrif arall sydd ganddo ef / hi. Os yn bosibl, gwnewch yn siŵr bod angen dau lofnod i lofnodi sieciau ac awdurdodi taliadau. Fel diogelwch ychwanegol dylai'r Trysorydd wneud datganiad i'r Pwyllgor Rheoli, yn egluro ei fod yn dal arian yng Nghyfrif X ar ran yr elusen. Dylid cadw'r datganiad gyda chofnodion swyddogol yr elusen.

Cadw cofnodion Ariannol

Mae angen i bob Cylch Meithrin gadw cofnodion cyfrifyddu gofalus o faint o arian sydd wedi dod i mewn i'r elusen, o ble mae wedi dod, beth yw ei bwrpas a sut y cafodd ei wario. Gellir gwneud hyn i gyd yn y Llyfr Cyfrifon (a ddarperir gan Mudiad Meithrin) neu ar-lein (gyda chymorth rhaglenni meddalwedd amrywiol neu daenlen Excel syml).



- Gall elusennau anghorfforedig sydd ag incwm gros llai na £ 250,000 gadw 'cyfrif derbyniadau a thaliadau' (D&T). Mae hwn yn ddatganiad syml o incwm a gwariant yn ystod y flwyddyn, gydag unrhyw warged neu ddiffyg o'r flwyddyn flaenorol wedi'i gyflwyno ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.
- Gall elusennau corfforedig fel SCE ag incwm gros llai na £ 250,000 ddewis cadw cyfrif 'derbynebau a thaliadau' (D&T) neu gyfrif 'croniadau'. Rhaid i'r rheini sydd ag incwm gros uwch na £ 250,000 gadw cyfrif 'croniadau'. Mae hyn yn seiliedig ar y system Derbyniadau a Thaliadau ond bydd angen cynnwys 'mantolen' sy'n nodi asedau'r elusen (yr hyn y mae'n berchen arno neu sy'n ddyledus iddi) a rhwymedigaethau (yr hyn sy'n ddyledus iddi), ynghyd â datganiad o weithgareddau ariannol a nodiadau esboniadol.

Diogelwch yn erbyn twyll:

- ◆ Dylai ymddiriedolwyr osod cyllideb ar gyfer y flwyddyn a monitro gwariant yn erbyn y gyllideb honno yn rheolaidd (bob mis neu bob chwarter).
- ◆ Dylai ymddiriedolwyr derbyn adroddiadau rheolaidd ar sefyllfa ariannol y Cylch. Mae'n rhan o'u swydd i ofyn cwestiynau a dylid annog hyn.
- ◆ Dylai fod gennych o leiaf ddau lofnodwr digyswllt i'ch cyfrif banc a gofyn am lofnodion neu awdurdodiad deul er mwyn rhyddhau unrhyw gyllid.
- ◆ Dylai dau berson gasglu arian parod gyda'l gilydd, gan oruchwylio ei gilydd (mae hyn hefyd yn diogelu'r unigolion).



Ceisiwch cadw'ch cyfrifon yn gyfredol er mwyn osgoi cael eich gorlethu. Ond gall popeth cael ei datrys os oes gennych dystiolaeth o'ch holl incwm a gwariant. Jyst gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio pob mantolen banc yn rheolaidd i weld eu bod yn cyfateb i'r wybodaeth yn eich cyfrifon. Mae'n weddol syml unwaith i chi ddod i arfer.

Cysylltwch â'ch Swyddog Cefnogi Lleol am arweiniad a chymorth

Ffurflenni Blynyddol

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i bob elusen gwblhau ffurflen flynyddol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiwn Elusennau am eu sefyllfa ariannol bob blwyddyn. Mae ymddiriedolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod hyn yn cael ei wneud a bod asedau'r elusen yn cael eu defnyddio i gyflawni ei dibenion yn unig. Byddwch yn derbyn ffurflen flynyddol gan y Comisiwn Elusennau ychydig ar ôl i'ch blwyddyn ariannol ddod i ben. Dylai'r ffurflen flynyddol gael ei chwblhau ar-lein, dim rhagor na 10 mis ar ôl i flwyddyn ariannol y Cylch orffen.



Mae'r wybodaeth sydd angen ei chyflwyno yn dibynnu ar lefel incwm yr elusen:

Beth sydd angen cyflwyno & lefel archwiliad, yn ôl incwm a strwythur y Cylch		
Incwm	Grŵp anghorfforedig	SCE (CIO)
£0 i £10,000	Diweddarau manylion yr elusen ar-lein trwy'r gwasanaeth ffurflen flynyddol	Eich ffurflen flynyddol ar-lein , copi PDF o'r cyfrifon ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr
£10,001 i £25,000	Cyflwyno ffurflen flynyddol ar-lein	Eich ffurflen flynyddol ar-lein , copi PDF o'r cyfrifon ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr
£25,001 i £250,000	Cyflwyno ffurflen flynyddol ar-lein , copi PDF o'r cyfrifon ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr (craffu allanol yn ofynnol) Archwiliad annibynnol o gyfrifon	Cyflwyno ffurflen flynyddol ar-lein , copi PDF o'r cyfrifon ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr (craffu allanol yn ofynnol) Archwiliad annibynnol o gyfrifon



Yr archwilydd annibynnol:

- Dylai fod yn unigolyn nad yw'n ymwneud â gweinyddiaeth y Cylch o ddydd i ddydd, ac nad oes ganddo gysylltiad â'r ymddiriedolwyr elusennol.
- Nid oes angen iddo fod yn gyfrifydd proffesiynol neu'n archwiliwr annibynnol cymwys os yw incwm gros y Cylch yn llai na £ 250,000 y flwyddyn.
- Rhaid dilyn cyfarwyddiadau a chanllawiau'r Comisiwn Elusennau ar archwilio annibynnol.
- https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/673173/CC32_-_Welsh.pdf

Wrth sefydlu'r Cylch bydd angen i chi benderfynu ar flwyddyn ariannol, er mwyn gwneud synnwyr o'ch cyllid ac i gyflwyno'r wybodaeth ofynnol i'r Comisiwn Elusennau. Y blynyddoedd ariannol a ddefnyddir amlaf yw naill ai 1af Ionawr - 31ain Rhagfyr NEU 1af Ebrill i 31ain Mawrth, er mwyn cydymffurfio â'r flwyddyn dreth. Ond gallwch ddefnyddio unrhyw 12 mis sy'n gwneud synnwyr i'ch elusen.

Rhodd Cymorth

- Gall pob elusen hawlio treth ar roddion yn ôl trwy gofrestru gyda Chyllid a Thollau EM ar gyfer Rhodd Cymorth. Gwneir hyn trwy lenwi ffurflen gais ar-lein.
- Dim ond ar roddion a wneir gan bobl sy'n byw yn y DU ac sy'n talu treth incwm neu dreth enillion cyfalaf y gellir hawlio Rhodd Cymorth.



Nid dyma'r broses hawsaf; ond mae digon o wybodaeth ar-lein, gan gynnwys: <https://www.gov.uk/claim-gift-aid>





7. SUT I NEWID MANYLION EICH ELUSEN NEU GAU ELUSEN

Rhaid i chi gadw manylion eich elusen yn gyfredol yn ôl y gyfraith !

8. Rhaid i chi hysbysu unrhyw newidiadau i:

- enw'r elusen.
- dogfen lywodraethol.
- manylion cyswllt, cyfeiriad neu fanylion cyfrif banc.
- pobl sy'n rhedeg eich elusen fel ymddiriedolwr neu bersonél awdurdodedig.
- sut mae'ch elusen yn gweithredu - er enghraifft, yr hyn y mae'n ei wneud neu ei strwythur cyfreithiol.

N.B. Dylech wneud a chofnodi penderfyniad yn ffurfiol mewn cyfarfod (gan ddilyn y canllawiau yn eich cyfansoddiad) cyn i chi wneud unrhyw un o'r newidiadau uchod

Sut i gyhoeddi newid:

- ⇒ dywedwch wrth y Comisiwn Elusennau am eich newidiadau ar-lein
- ⇒ dywedwch wrth Gyllid a Thollau EM am eich newidiadau ar-lein neu ddefnyddiwch ffurflen ChV1
- ⇒ Os ydych chi'n newid enw neu ddogfen lywodraethol eich elusen, rhaid i'r Comisiwn Elusennau gytuno ar y newid cyn i chi ddweud wrth Gyllid a Thollau EM.
- ⇒ Rhaid i chi aros 30 diwrnod ar ôl i chi ddweud wrth Gyllid a Thollau EM am newid cyn gwneud unrhyw hawliadau, er enghraifft am Rhodd Cymorth.
- ⇒ Pan fydd ymddiriedolwr yn gadael rhaid diweddarau'r cofnodion sydd gan y Comisiwn Elusennau - naill ai yn eich ffurflen flynyddol neu ar-lein. Os oedd gan yr ymddiriedolwr sy'n ymddeol cyfrifoldebau arbennig, mae'n syniad da trefnu trosglwyddiad. Efallai bydd angen i'r ymddiriedolwr sy'n gadael:



- ✓ trosglwyddo cyfrinair yr elusen ar gyfer gwefan y Comisiwn trosglwyddo unrhyw eiddo, gwybodaeth neu waith papur Cylch
- ✓ hyfforddi eraill ar sut i gwblhau'r ffurflen flynyddol
- ✓ cau pen y mwdwl (er enghraifft efallai y bydd angen newid llofnodwyr banc)
- ✓ dweud wrth y Comisiwn bod eich cyswllt a enwir wedi newid
- ✓ Cofiwch roi gwybod i AGC am unrhyw newidiadau hefyd (Cyfeiriwch at Llyfr Bach Piws AGC)

Os oes angen mwy o help arnoch, cofiwch fod Mudiad Meithrin yma i'ch helpu chi.

Cau eich elusen:

Dylid gwneud pob ymdrech i gadw'r Cylch Meithrin ar agor - mae'n wasanaeth gwerthfawr yn y gymuned sy'n cynnig cyfleoedd i blant yn yr ardal honno ddysgu Cymraeg. Os gwelwch yn dda, cysylltwch â Mudiad Meithrin i ymgynghori a thrafod opsiynau cyn gwneud unrhyw benderfyniad, gan y byddwn yn gallu darparu cefnogaeth ac arweiniad i helpu datrys materion.

Os nad oes opsiwn arall ond cau'r Cylch Meithrin, rhaid i'r Pwyllgor:

- ◆ gwneud unrhyw benderfyniad i gau o fewn cyfarfod ffurfiol a'i gofnodi yn y cofnodion (gan gadw at y canllawiau yn eich cyfansoddiad)
- ◆ Ymgynghori â staff a rhieni
- ◆ Hysbysu partneriaid allweddol (Comisiwn Elusennau, AGC, Estyn, Mudiad Meithrin, Cyllid a Thollau EM, yr Awdurdod Lleol)
- ◆ Datrys materion ariannol a hysbysu'r banc
- ◆ Rhaid trin cofnodion cyfrinachol yn ddiogel (yn unol â GDPR) trwy drosglwyddo dogfennau hanfodol i Mudiad Meithrin a shredio neu ddileu pob un arall yn ddiogel.
- ◆ Rhaid hysbysu darparwyr gwasanaeth a chanslo cytundebau

Gofynnwch i'ch Swyddog Cefnogi am gyngor a chyfeiriwch at ganllawiau ar gau Cylch Meithrin sydd yn y Llyfr Mawr Piws.



8. GWYBODAETH AC ADNODDAU YCHWANEGOL

Canllawiau'r Comisiwn Elusennau:

www.gov.uk/government/organisations/charity-commission

www.gov.uk/guidance/charity-trustee-whats-involved

Dod o hyd i ymddiriedolwyr newydd:

Academi Mudiad Meithrin - www.meithrin.cymru/academi-en/

Llyfr Mawr Piws - <https://intranet.meithrin.co.uk/llyfr-mawr-piws/>

Llyfrau Bach Piws: Materion Ariannol, Pwyllgorau, AGC, Staffio

Taflen wybodaeth WCVA ar Ymddiredolwyr: [Recruitment, selection and induction](#)

Trustee Recruitment, Selection and Induction – Lloyds Bank Foundation

www.lloydsbankfoundation.org.uk/Trustee%20handbook%20for%20all%20charities.pdf



arbenigwyr y blynyddoedd cynnar
Welsh early years specialists

Little Purple Book:

Mudiad Meithrin guideline - Charity Matters

June 2020



CONTENTS

1.	INTRODUCTION	3
2.	WHAT IS A CHARITY	4
3.	THE CHARITY COMMISSION	5
4.	SETTING UP A CHARITY	6-16
5.	RECRUITING YOUR TRUSTEES.....	17-19
6.	KEEPING YOUR CHARITY ON TRACK	20-27
7.	HOW TO CHANGE YOUR CHARITY DETAILS OR CLOSE A CHARITY	28-29
8.	ADDITIONAL INFORMATION & RESOURCES	30





1. INTRODUCTION

The first years in a child's life are the most significant ones as far as his/her development is concerned. The Cylch Meithrin offers a number of valuable experiences to every young child. The Cylch Meithrin's successful development depends to a great extent on the support of parents/guardians and the local community.

Parents/guardians/volunteers are responsible for forming a Cymdeithas/Society in the first instance, and that Cymdeithas will be responsible for establishing the Cylch Meithrin. It is the responsibility of the Cymdeithas (*Society*) to elect a Voluntary Management Committee to be responsible for the management and day to day running of the Cylch Meithrin and to co-opt others from the local community to help with the work.

The Voluntary Management Committee will be responsible for operating as an employer including appointing, employing,

and managing staff, drawing on the advice and expertise of Mudiad Meithrin and others.

This guide will take you through the basics of setting up and running a charity. As this is just a brief guide it does not contain all the legal guidance for charities, so you should refer to the Charity Commission website for the full legal guidance.

